

## **CYNORTHWY-YDD GWISGOEDD**

### **Theatr Clwyd**

#### **Disgrifiad Swydd**

Mae Theatr Clwyd wedi bod yn theatr gynhyrchu fwyaf blaenllaw Cymru ers 1976. Ar hyn o bryd mae'r Tîm Gweithredol (y Cyfarwyddwr Artistig – Tamara Harvey a'r Cyfarwyddwr Gweithredol – Liam Evans-Ford) yn creu'r newidiadau diwylliannol a gweithredol pwysicaf yn hanes y 42 o flynyddoedd ers i'r theatr fod yn gweithredu, cyfnod a fydd yn ailddiffinio ac yn diogelu dyfodol y ganolfan gelfyddydau unigryw a gwerthfawr hon – y theatr gynhyrchu fwyaf blaenllaw yng Nghymru.

Mae Theatr Clwyd yn cynhyrchu mwy nag wyth sioe y flwyddyn - yn y Saesneg yn bennaf, ond hefyd yn y Gymraeg - ac mae'n cyflwyno rhywfaint o'r gwaith hwn ar daith yng Nghymru ac yng ngweddill y DU. Mae ganddi raglen waith hynod lwyddiannus ar gyfer a gyda phobl ifanc sy'n cael ei chreu yn yr adeilad a'r tu allan iddo, a theithiau i ysgolion lleol, yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r adeilad hefyd yn croesawu amrywiaeth o berfformiadau drama, dawn, cerddoriaeth a chelf teithiol ar gyfer pob oed, rhaglen gynhwysfawr o ffilmiau a rhaglen gymunedol brysur. Hefyd mae'r sefydliad ar flaen y gad gyda gwaith cysylltiedig â'r celfyddydau a lles.

Rydym wedi gwneud datblygiadau mawr i newid siâp ein rhaglennu; rydym wedi ymrwmo i osod profiad yr ymwelydd wrth galon ein penderfyniadau; rydym wedi dechrau cynyddu ein digwyddiadau masnachol; rydym wedi cymryd y camau cyntaf tuag at ddyfnhau ein perthynas â'n cymuned; rydym wedi dechrau datblygu ein cynigion ategol ac rydym wedi bod yn gweithio'n galed i farchnata ein gwaith a'n hadeilad yn fwy strategol ac effeithiol. Hefyd rydym wedi cyflwyno astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer ailddatblygiad cyfalaf mawr ac wedi derbyn cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer bwrw ymlaen â'r cynlluniau i Ddylunio a Datblygu.

Theatr Clwyd yw'r unig theatr gynhyrchu yn y DU sy'n eiddo i awdurdod lleol o hyd. Gyda throsiant o £5.3m yn 2016-17, fe'i cefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir y Fflint a'i gweithgareddau ei hun. Cynhelir rhyw 2,115 o ddigwyddiadau unigol yn y theatr bob blwyddyn, gydag oddeutu 200,000 o bobl yn eu mynychu, a 50,000 o aelodau cymunedol yn cymryd rhan mewn digwyddiadau allgymorth. Yn ystod 2016/17, gwelodd 220,000 yn rhagor o bobl sioeau gan Theatr Clwyd mewn llefydd eraill yn y DU.

### **Crynodeb o'r Swydd**

## **CYNORTHWY-YDD GWISGOEDD**

Yn adrodd yn ôl i: Rheolwr Gwisgoedd

Y manteision yn cynnwys:

Cyflog:

Gwyliau:

Rhybudd gadael gofynnol:

## **CYNORTHWY-YDD GWISGOEDD**

### **Yr Adran Gynhyrchu**

Pwrpas yr Adran Gynhyrchu yw gweithio'n agos ac yn gydweithredol i wireddu potensial llawn ein cynyrchiadau a'r sioeau sy'n ymweld. Hefyd mae'n cefnogi pob digwyddiad yn yr adeilad, gwaith yr Adran Ymgysylltu Creadigol a holl waith Theatr Clwyd sy'n teithio i'r gymuned a thu hwnt.

### **Pwrpas y Swydd**

Gweithio fel rhan o'r Adran Gynhyrchu i gyfrannu at redeg y tîm Gwisgoedd yn esmwyth, gan ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf bosib i gynyrchiadau Theatr Clwyd.

### **Prif gyfrifoldebau**

#### **Cyffredinol**

- O dan gyfarwyddyd y Rheolwr Gwisgoedd a'r Staff Torri Gwisgoedd, cyfrifol am wneud ac addasu gwisgoedd, i'r safonau uchaf posib ac oddi mewn i'r amser a'r gyllideb sydd wedi'u neilltuo.
- Mesur actorion a chynorthwyo mewn ffitiadau.
- Atgyweirio a gwneud addasiadau a newidiadau i wisgoedd wedi'u gwneud, eu llogi a'u canfod.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Gwisgoedd gyda rheoli a chynnal stoc ac adnoddau'r Adran Gwisgoedd.
- Lliwio, treulio neu orffen gwisgoedd mewn ffordd arall.
- Cynorthwyo yn ystod yr wythnosau cynhyrchu er mwyn sicrhau eu bod yn rhedeg yn esmwyth.
- Ymgymryd â dyletswyddau Gwisgo a Chynnal a Chadw Gwisgoedd yn ôl yr angen.
- Gwneud gwaith ymarferol mewn perthynas â ffitio, storio gwisgoedd ac offer gwisgoedd, ac arddangosfeydd gwisgoedd.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Gwisgoedd i reoli a chynnal a chadw stoc ac adnoddau'r Adran Gwisgoedd.
- Cynllunio ac amserlennu gwaith mewn perthynas â darparu gwisgoedd dibynadwy ar gyfer ymarferion, ffitiadau a pherfformiadau.
- Gweithio oddi mewn i gyllidebau penodol a'r adnoddau sydd ar gael.
- Goruchwyllo staff achlysurol yn ôl yr angen.
- Gweithio gyda'r nos, ar benwythnosau ac oriau hyblyg pan fo angen.
- Cyflawni dyletswyddau eraill ar gais y Cyfarwyddwr Cynhyrchu, y Rheolwr Cynhyrchu neu'r Rheolwr Gwisgoedd.

### **Iechyd a Diogelwch**

- Sicrhau bod yr holl ofynion lechyd a Diogelwch yn cael eu bodloni bob amser wrth weithio.
- Sicrhau bod defnyddiau'n cael eu cadw a'u defnyddio'n ddiogel a chydymffurfio â rheoliadau a chanllawiau HSE (yn enwedig mewn perthynas â COSHH).
- Mynychu hyfforddiant yn ôl yr angen a chynnal ymwybyddiaeth o reoliadau lechyd a Diogelwch penodol i'r gofod a'r offer a ddefnyddir.
- Sicrhau bod yr holl offer arbenigol yn cael ei gau'n gywir ar ddiwedd pob diwrnod gwaith.
- Sicrhau bod yr holl beryglon posib yn cael eu gwneud yn ddiogel cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol bosib.
- Sicrhau bod yr holl offer yn cael ei gadw'n ddiogel ac ar gael i ddefnyddwyr awdurdodedig.
- Llunio asesiadau risg a datganiadau dull yn ôl yr angen.

## **Manyleb y Person**

### **Hanfodol**

- Profiad ymarferol, perthnasol, mewn lleoliad o faint tebyg neu gwmni cynhyrchu o faint tebyg os yn bosib.
- Cymwysterau mewn creu gwisgoedd i lefel uchel (safon Gradd neu gyfatebol).
- Medrus wrth ddefnyddio peiriannau gwnïo a throswythwyr.
- Hynod fedrus mewn gwnïo â llaw.
- Dull trefnus ond hyblyg o weithio, gyda phrofiad llwyddiannus o gadw at ddyddiadau penodol, rheoli blaenoriaethau'n gwrthdaro, a pheidio â chynhyrfu o dan bwysau.
- Gallu clir i weithio fel rhan o dîm a dangos blaengaredd hefyd.
- Gallu bod yn greadigol a dyfeisgar wrth ddatrys problemau.
- Gwybodaeth weithredol dda am fyd y theatr yn y DU.
- Gwybodaeth ymarferol dda mewn meysydd arbenigol fel wigs, gwneud gwisgoedd, gwaith teiliwr, lliwio, torri i lawr a cholur.
- Sgiliau rhyngpersonol rhagorol ac yn gallu cyfathrebu'n glir ac yn gyson gyda holl ddefnyddwyr y theatr a'r gofod ar gyfer digwyddiadau, yn enwedig defnyddwyr anarbenigol.
- Gallu delio'n ddoeth â ffitiadau gwisgoedd ar gyfer oedolion a phlant mewn ffordd gynnil ac yn llawn dealltwriaeth.
- Gallu gweithio oriau hyblyg ac anghymdeithasol, gan gynnwys gyda'r nosau, penwythnosau a gwyliau banc.
- Lefel uchel o fanwl gywirdeb a sylw i fanylder.
- Ymrwymiad i ragoriaeth artistig.

### **Dymunol**

- Cymwysterau mewn cynllunio gwisgoedd a/neu decstilau.
- Deall hanes gwisgoedd.
- Cymraeg llafar ac ysgrifenedig.
- Trwydded yrru lawn a glân.